

Cwestiynau Cyffredin - Gwarchod plant a'r System Gynllunio

Gweler isod gwestiynau cyffredin ynglŷn â sut mae rheoliadau cynllunio gwlad a thref yn berthnasol i warchod plant, gan gynnwys rhedeg busnes gwarchod plant o gartref.

1. **Ar hyn o bryd, rwy'n gwarchod plant yn fy nghartref a byddaf yn gwneud cais i'r Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal i gael cynyddu nifer y plant y byddaf yn eu gwarchod o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Oes angen caniatâd cynllunio arnaf?**
2. **Rwy'n ystyried dechrau busnes gwarchod plant – oes angen caniatâd cynllunio arnaf?**
3. **Rwy'n ystyried dechrau busnes gofal dydd – oes angen caniatâd cynllunio arnaf?**
4. **Ydw i'n gallu rhedeg busnes gwarchod plant yn fy nghartref?**
5. **Sut ydw i'n cael cyngor ar ganiatâd cynllunio?**
6. **Mae fy awdurdod cynllunio lleol wedi dweud wrthyf yn anffurfiol nad oes angen caniatâd cynllunio arnaf – sut ydw i'n cael cadarnhad cyfreithiol o hyn?**
7. **Oes angen tystiolaeth ynghylch yr angen am ganiatâd cynllunio ar yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal?**
8. **Faint fydd gwneud cais am ganiatâd cynllunio yn ei gostio i mi?**
9. **Oes angen pensaer neu ymgynghorydd cynllunio arnaf?**
10. **All fy nghymdogion wrthwynebu fy nghais cynllunio?**
11. **Mae fy nghymydog wedi dechrau busnes gwarchod plant – sut ydw i'n gwybod bod ganddo ganiatâd cynllunio?**

1. **Ar hyn o bryd, rwy'n gwarchod plant yn fy nghartref a byddaf yn gwneud cais i'r Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal i gael cynyddu nifer y plant y byddaf yn eu gwarchod o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Oes angen caniatâd cynllunio arnaf?**

Nid yw'r gyfraith cynllunio gwlad a thref wedi newid. Mae caniatâd cynllunio yn fater ar wahân i gofrestru a chydymffurfio â'r safonau gofal plant cenedlaethol.

Os nad oes angen caniatâd cynllunio arnoch i redeg eich busnes gwarchod plant ar hyn o bryd ac nad ydych chi'n bwriadu gwneud unrhyw newidiadau, does dim angen caniatâd cynllunio arnoch.

Os ydych chi'n bwriadu gwneud y canlynol:

- cynyddu nifer y plant rydych chi'n eu gwarchod ar ddiwrnod penodol; neu

- gael estyniad ar eich cartref, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch. Mae p'un ai a oes angen caniatâd cynllunio arnoch ai peidio yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos yn unigol.

Y prawf allweddol yw a fydd cymeriad y cartref yn newid o ganlyniad i'r busnes. Dyma'r cwestiynau a fydd yn cael eu gofyn:

- A fydd y cartref yn peidio cael ei ddefnyddio fel preswylfa breifat yn bennaf?
- A fydd y busnes yn golygu y bydd cynnydd sylweddol yn y traffig neu nifer y bobl a fydd yn galw heibio?
- A fydd y busnes yn cynnwys unrhyw weithgareddau sy'n anarferol ar gyfer ardal breswyl?
- A fydd eich busnes yn tarfu ar eich cymdogion yn ystod oriau afresymol neu'n creu mathau eraill o niwsans, fel sŵn neu arogleuon?

Os mai 'bydd' yw eich ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, mae'n debyg y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch. Os ydych chi'n dal yn ansicr ynghylch a oes angen caniatâd cynllunio arnoch, dylech ofyn am gyngor gan eich awdurdod cynllunio lleol neu gan ymgynghorydd cynllunio proffesiynol.

2. Rwy'n ystyried dechrau busnes gwarchod plant – oes angen caniatâd cynllunio arnaf?

Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer busnes gwarchod plant neu ofal dydd os yw'n bodloni'r canlynol:

- bydd angen codi adeilad(au) newydd
- bydd angen ymestyn neu newid yr adeiladau presennol
- drwy ddefnyddio adeilad presennol, byddai'r gweithgaredd gwarchod plant neu ofal dydd yn golygu "newid defnydd sylweddol" i ddefnydd presennol yr adeilad.

Gallai dechrau gwarchod plant neu gynnydd mewn gwaith gofal plant presennol olygu newid defnydd sylweddol.

3. Rwy'n ystyried dechrau busnes gofal dydd – oes angen caniatâd cynllunio arnaf?

Mae meithrinfa neu feithrinfa ddydd yng nghategori dosbarth defnydd D1 (sefydliadau dibreswyl). Mae hyn yn golygu y gellir dechrau gwarchod plant mewn adeilad sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer defnydd D1 yn ôl y gyfraith, a hynny heb ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio os oedd adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer defnydd gwahanol neu ddefnydd cymysg (gwarchod plant ac un neu fwy o ddefnyddiau eraill). Byddai priodweddau ffisegol y lleoliad a'r lefel gweithgaredd presennol yn hanfodol wrth benderfynu a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio, a bydd yn amrywio o achos i achos. Dan amgylchiadau o'r fath, dylech geisio cyngor gan eich awdurdod cynllunio lleol neu gan ymgynghorydd cynllunio proffesiynol.

Ar ôl i gais cynllunio ar gyfer cyfleusterau gwarchod plant gael ei bennu, prif flaenoriaeth y system gynllunio yw diogelu amwynder o ran y defnydd arfaethedig. Y

prif ystyriaethau fydd: a fydd y defnydd arfaethedig yn addas ar gyfer y lleoliad, er enghraifft, a fydd yn tarfu oherwydd sŵn a thraffig ac a fydd mynediad addas ato.

4. Ydw i'n gallu rhedeg busnes gwarchod plant yn fy nghartref?

Os ydych chi'n dechrau gwasanaeth gwarchod plant o'ch cartref, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch os bydd cymeriad yr adeilad yn newid o ganlyniad i'r busnes. Dyma'r cwestiynau a fydd yn cael eu gofyn:

- A fydd y cartref yn cael ei ddefnyddio fel preswylfa breifat yn bennaf?
- A fydd y busnes yn golygu y bydd cynnydd sylweddol yn y traffig neu nifer y bobl a fydd yn galw heibio?
- A fydd y busnes yn cynnwys unrhyw weithgareddau sy'n anarferol ar gyfer ardal breswyl?
- A fydd eich busnes yn tarfu ar eich cymdogion yn ystod oriau afresymol neu'n creu mathau eraill o niwsans, fel sŵn neu arogleuon?

Os mai 'bydd' yw eich ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, mae'n debyg y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch. Os ydych chi'n dal yn ansicr ynghylch a oes angen caniatâd cynllunio arnoch, dylech ofyn am gyngor gan eich awdurdod cynllunio lleol neu gan ymgynghorydd cynllunio proffesiynol.

5. Sut ydw i'n cael cyngor ar ganiatâd cynllunio?

Mae modd cael cyngor cyffredinol ynghylch caniatâd cynllunio yn yr adran cwestiwn ac ateb, 'gwneud cais cynllunio'

<http://gov.wales/topics/planning/faqs/makingplanningapps/?lang=cy>

Mae modd cael cyngor yn llyfryn Llywodraeth Cymru, 'Caniatâd Cynllunio: Arweiniad ar gyfer Busnesau'

<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/ppguidebusiness/?lang=cy>

Gallwch ofyn i'ch awdurdod cynllunio lleol am farn anffurfiol o ran a oes angen caniatâd cynllunio arnoch i weithredu o'ch cartref. Gallwch ddefnyddio'r llythyr enghreifftiol a'r holiadur sydd wedi'u hatodi i'r llythyr egluro polisi CL-01-16.

<<weblink>>

Os ydych chi'n gwybod bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich busnes, gallwch ofyn i'ch awdurdod cynllunio lleol am gyngor cyn gwneud cais ynghylch pa mor dderbyniol yw'ch cynnig. Efallai y bydd hyn yn eich helpu chi i benderfynu a yw'n werth cyflwyno cais cynllunio. O fis Mawrth 2016 ymlaen, bydd gwasanaeth ceisiadau ysgrifenedig ymlaen llaw ar gael gan awdurdodau cynllunio lleol am ffi o £250.

Bydd gofyn i ymgeiswyr lenwi ffurflen ymholiadau cyn gwneud cais, bydd ar gael gan yr awdurdod. Pan fydd yr awdurdod yn cael ymholiad, a gyflwynir ar ffurflen ymholiad cyn gwneud cais wedi'i llenwi, bydd ymateb ysgrifenedig yn cael ei anfon at yr ymgeisydd (ar ôl derbyn y ffi gywir) ymhen 21 diwrnod, yn trafod y canlynol:

1. Hanes cynllunio perthnasol.

2. Polisiâu cynlluniau datblygu perthnasol y bydd y cynnig yn cael ei asesu yn eu herbyn.
3. Unrhyw ganllawiau cynllunio atodol perthnasol.
4. Unrhyw ddeunydd arall sy'n hanfodol i ystyriaethau cynllunio.
5. Golwg anffurfiol ar achos o ran rhinweddau'r cynnig.

6. Mae fy awdurdod cynllunio lleol wedi dweud wrthyf yn anffurfiol nad oes angen caniatâd cynllunio arnaf – sut ydw i'n cael cadarnhad cyfreithiol o hyn?

Mae'r Dystysgrif Datblygu Cyfreithlon yn ddogfen gyfreithiol sy'n cadarnhau bod y datblygiad yn gyfreithlon. Mae dau fath, yn ddibynnol ar a yw'n datblygiad sydd ar y gweill neu'n un arfaethedig. Maen nhw'n cadarnhau a fydd angen caniatâd cynllunio ai peidio, a yw'n ddatblygiad a ganiateir neu a yw o fewn terfynau caniatâd cyfredol. Yn ychwanegol i hyn, yn achos datblygiadau sy'n bodoli eisoes, nid oes modd cymryd camau gorfodi yn eu herbyn mwyach.

Nid caniatâd cynllunio mo'r dystysgrif. Nid yw rhinweddau cynllunio'r defnydd na'r gweithgaredd yn y cais yn berthnasol. Mae'r penderfyniad i ddyfarnu tystysgrif ai peidio yn dibynnu'n llwyr ar dystiolaeth ffeithiol ynghylch hanes a statws cynllunio'r adeilad neu dir arall, a'r modd y dehonglir unrhyw gyfraith cynllunio neu awdurdod barnwrol.

Os dyfarnir y dystysgrif gan eich awdurdod cynllunio lleol, mae'n golygu na fydd modd cymryd camau gorfodi yn erbyn y datblygiad y cyfeirir ato yn y dystysgrif.

Os oes gan yr awdurdod cynllunio lleol dystiolaeth, neu sail rhesymol i gredu nad yw hawliad yr ymgeisydd yn gywir, gellir gwrthod dyfarnu tystysgrif iddo.

Dylech wneud cais am Dystysgrif Datblygu Cyfreithlon gan eich awdurdod cynllunio lleol, gan esbonio eich defnydd gwarchod plant arfaethedig yn llawn ac yn glir. Ar gyfer defnyddiau presennol, eich cyfrifoldeb chi yw darparu'r dystiolaeth gywir. Gallai hyn gynnwys:

- tystiolaeth bod adeilad yn 'sylweddol gyflawn' dros bedair blynedd cyn dyddiad y cais
- tystiolaeth bod unrhyw ddefnydd (neu dorri amodau) wedi'i wneud yn ddi-dor am gyfnod o 10 mlynedd
- tystiolaeth i gefnogi eich barn nad yw'r defnydd gofal plant ar raddfa na chanddo gymeriad sy'n ddigonol i olygu newid defnydd y mae angen caniatâd cynllunio i'w wneud.

7. Oes angen tystiolaeth ynghylch yr angen am ganiatâd cynllunio ar yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal?

O fis Ebrill 2016 ymlaen ni fydd rhaid i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru weld tystiolaeth ynghylch yr angen am ganiatâd cynllunio ar gyfer eich busnes gofal plant pan fyddwch chi'n cofrestru â nhw. Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith cynllunio gwlad a thref wedi newid. Cyfrifoldeb y darparwr gofal plant o hyd yw sicrhau bod yr holl ganiatâd cynllunio angenrheidiol ganddo.

8. Faint fydd gwneud cais am ganiatâd cynllunio yn ei gostio i mi?

Bydd angen talu ffi am y rhan fwyaf o geisiadau caniatâd cynllunio. Sefydli'r hyn gan y llywodraeth a bydd yn dibynnu ar y math o ddatblygiad a graddfa'r datblygiad arfaethedig. Mae'r rhestr lawn o ffioedd i'w gweld ar wefan y Porth Cynllunio.

Mae awdurdodau cynllunio lleol yn darparu cyngor anffurfiol ynghylch yr angen am ganiatâd cynllunio yn ôl eu disgrisiwn – felly bydd yn amrywio yn y 25 awdurdod. Mae gwneud cais am gadarnhad ffurfiol ynghylch yr angen am ganiatâd ar gyfer gofal plant arfaethedig drwy Dystysgrif Cyfreithlondeb yn costio ffi safonol o £190.

Os yw'n hysbys bod angen caniatâd cynllunio, mae'n bosib cael syniad ynghylch a fydd cais yn llwyddiannus ai peidio. Bwriad y gwasanaethau cyn gwneud cais yw rhoi'r cyfle gorau i'r ymgeisydd gael caniatâd cynllunio ar gyfer ei gais y tro cyntaf, ac efallai y byddai'n syniad da iddo geisio cyngor cyn gwneud cais. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth cyn gwneud cais yn ofynnol er mwyn cyflwyno cais cynllunio ac felly dim ond pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais amdano y bydd yn cael ei ddarparu. Mae'r gwasanaeth cyn gwneud cais sylfaenol yn costio £250 am fân newid defnydd.

Mae gwneud cais am newid defnydd i ddefnydd cymysg fel cartref a busnes gwarchod plant yn costio £380.

Os yw'r cais am dystysgrif datblygu cyfreithiol yn berthnasol i ddefnydd presennol, er enghraifft pan fo'r eiddo wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion gwarchod plant am gyfnod dros 10 mlynedd, mae'r ffi yn £380.

9. Oes angen pensaer neu ymgynghorydd cynllunio arnaf?

Gall unrhyw un wneud cais am ganiatâd cynllunio ond gallech benodi ymgynghorydd cynllunio, pensaer neu weithiwr proffesiynol arall i wneud cais am ganiatâd cynllunio ar eich rhan, pe baech chi'n dymuno gwneud hynny. Ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio mae angen cyflwyno cynlluniau manwl ac yn yr achosion hynny, mae'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried y byddai'n well cyflogi gweithiwr proffesiynol.

Mewn rhai achosion, yn enwedig pan nad oes angen newid eiddo'n ffisegol, mae llai o angen am gynlluniau manwl. Yn yr achosion hyn, efallai y bydd ymgeiswyr am baratoi eu cynlluniau eu hunain gan ddilyn canllawiau'r awdurdod cynllunio lleol.

10. All fy nghymdogion wrthwynebu fy nghais cynllunio?

Gall cymdogion wrthwynebu'ch cais cynllunio lleol drwy gyflwyno eu sylwadau i'ch awdurdod cynllunio lleol. Mae'n rhaid i'r ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynllunio (ystyriaethau sylweddol) ymwneud â materion cynllunio; hynny ydy, mae'n rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r gwaith o reoleiddio'r datblygiad a defnyddio'r tir er budd y cyhoedd, gan anelu at gynaliadwyedd.

Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu faint o sylw i'w roi i'r ystyriaethau sylweddol hyn (fel sŵn neu ddiogelwch traffig) wrth ystyried eich cais.

11. Mae fy nghymydog wedi dechrau busnes gwarchod plant – sut ydw i'n gwybod bod ganddo ganiatâd cynllunio?

Nid oes angen caniatâd cynllunio i redeg busnes gwarchod plant o gartref yn y rhan fwyaf o achosion ond efallai fod angen caniatâd, a hynny'n ddibynnol ar nifer y plant y gofali'r amdanynt neu'r ffordd caiff y gwaith ei wneud.

Os yw cais am ganiatâd cynllunio wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol, mae'n rhaid iddo gael ei gofnodi ar gofrestr. Mae modd gweld y gofrestr gynllunio ar wefannau rhai o'r awdurdodau lleol. Os nad yw'ch awdurdod lleol yn cynnig y gwasanaeth hwn, gallwch weld copi o'r gofrestr yn un o'u swyddfeydd.